STORI GYMDEITHASOL
SOCIAL STORY

Canolfan Diwylliant / Conwy Culture Centre
Town Ditch Road, Conwy, LL32 8NU

Cymraeg

Sut i gyrraedd Canolfan Ddiwylliant Conwy

Dyma lun o Ganolfan Ddiwylliant Conwy o'r tu allan.

Mae'r ganolfan yn nhref Conwy.

Gallwch gyrraedd yno gyda char, bws neu drên.

Mae bws rhif 5 Arriva o Fangor i Landudno yn stopio y tu allan i'r ganolfan bob 10 munud.

English

How to get to the Conwy Culture Centre

This is the Conwy Culture Centre from the outside.

It is located in Conwy town.

You can get to it by car, bus or train.

The Arriva number 5 bus from Bangor to Llandudno stops outside the centre every 10 minutes.

Gallwch deithio ar fysiau Arriva eraill yn ogystal megis bysiau 27 a 14 o ganol Conwy sydd ond nepell i ffwrdd.

You can also get other Arriva buses like the 27 and 14 from the centre of Conwy a short distance away.

Mae bws rhif 19 hefyd yn teithio heibio'r ganolfan i'ch cludo i Lanrwst ond yn llai aml na'r gwasanaethau bws eraill.

The number 19 also goes past the centre to take you to Llanrwst but less frequently.

Dydy'r orsaf drenau yng nghanol tref Conwy ddim yn bell o gwbl.

Fodd bynnag, nid yw'n addas ar gyfer cadeiriau olwyn.

Gorsaf drenau Cyffordd Llandudno yw'r orsaf agosaf sy'n addas ar gyfer cadeiriau olwyn.

The train station in Conwy town centre is a short distance away.

However it isn't wheelchair accessible.

Llandudno Junction is the nearest accessible station.

Mae yna dri lle parcio i bobl anabl yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy.

Dim ond hyn a hyn o lefydd parcio sydd yn nhref Conwy.

There are three disabled car parking spots at the Conwy Culture Centre.

Parking in Conwy town is limited.

Mae yna rywfaint o lefydd parcio ym Maes Parcio Bodlondeb.

Mae'n agos i Swyddfeydd y Cyngor.

Mae yna lwybr o'r maes parcio sy'n arwain at Ganolfan Ddiwylliant Conwy drwy Barc Bodlondeb.

There are some parking spaces at the Bodlondeb Car Park.

It is near the Council Offices.

There is a path connecting this area to the Conwy Culture Centre through Bodlondeb Park.

Sut i gyrraedd Canolfan Ddiwylliant Conwy

Mae Canolfan Ddiwylliant Conwy ar gyrion Waliau Tref Conwy.

Mae'n bosibl y clywch chi sŵn traffig. Fe fydd arogl glaswellt ffres a natur yn deillio o fan gwyrdd cyfagos hefyd.

Mae yna ddau groesfan i gerddwyr ar gyrion y dref ar Ffordd Bangor a Ffordd Town Ditch.

Finding your way into the Conwy Culture Centre

Conwy Culture Centre is just outside the Conwy Town Walls.

You might hear the sound of traffic. There are also smells of fresh grass and nature coming from the nearby green space.

There are two pedestrian crossings just outside of the centre on Bangor Road and Town Ditch Road.

Mae yna rywfaint o stepiau yn arwain o'r llwybr ar Ffordd Town Ditch tua mynediad blaen y ganolfan.

There are some steps from the path on Town Dich Road to the front entrance of the centre.

Mae esgynfa i'r chwith o'r grisiau ar gornel Ffordd Bangor.

Mae yna giatiau llwyd tywyll y bydd angen ichi deithio o'u hamgylch ger brig a gwaelod yr esgynfa.

There is a ramp to the left of the stairs at the corner of Bangor Road.

There are dark grey gates you'll have to move around at the top and bottom of the ramp.

Mae yna fapiau safle a chanllawiau i gyd-fynd â'r holl gyfleusterau y tu allan i'r ganolfan er mwyn eich helpu i ganfod eich ffordd.

There are site maps and guides to all the facilities located outside the centre to help you find your way.

Mae dau set o ddrysau awtomatig ger mynedfa'r ganolfan a fydd yn eich tywys i'r prif gyntedd.

The entrance to the centre has two sets of automatic sliding doors which take you into the main foyer.

Mae'r Ardd Synhwyraidd y tu ôl i'r ganolfan, ger y mannau parcio i bobl anabl.

Around the back of the centre, nearby to the disabled parking spaces you will find the Sensory Garden.

Os ydych chi'n dod i ddigwyddiad yn y ganolfan, gallwch drefnu gyda threfnydd y digwyddiad eich bod yn dod i mewn drwy'r drysau i'r gofod Celfyddydau a Chymuned, sydd union heibio'r Ardd Synhwyraidd.

Mae'r drysau hyn gyferbyn â'r amffitheatr carreg fechan.

If you're coming to an event at the centre, you can arrange with the event organiser to allow access through doors to the Arts and Community space just past the Sensory Garden.

These doors are just opposite the small stone amphitheatre.

Caiff y drysau hyn eu hagor gyda llaw gan staff y digwyddiad ac maen nhw'n eithaf trwm.

Mae yna fymryn o ysgafell ar ffrâm y drws felly mae'n bosibl y byddwch chi'n teimlo cnoc ysgafn pan fyddwch chi'n dod i mewn os ydych chi'n defnyddio cadair olwyn.

These doors are manually opened by event staff and are quite heavy.

There is a slight ledge on the door frame so you may feel a light bump as you come in if you're using a wheelchair.

Disgrifiad o Ganolfan Ddiwylliant Conwy

What is it like in Conwy Culture Centre?

Y fynedfa

The entrance

Mae'r prif fynedfa i'r chwith o Gaffi Cantîn yn y ganolfan ddiwylliant.
Pan fyddwch chi'n dod i mewn i'r ganolfan, mae'n bosibl y byddwch chi'n clywed sŵn ac yn arogli arogleuon y caffi wrth iddyn nhw baratoi coffis, symud platiau a chwpanau a choginio bwyd ar gyfer y cwsmeriaid.

The main entrance is to the left of the Cantin Caffi at the culture centre.
When you enter the building you might hear the sounds and smells of the cafe as they make coffees, move plates and cups and cook food for customers.

Dyma'r fynedfa. Mae yna wahanol arddangosiadau o bryd i'w gilydd.

This is the entrance area. There are sometimes different displays.

Y Cantîn

The Cantin

Dyma'r Cantîn. Gallwch brynu bwyd a diod yma. Mae yna ddigonedd o fyrddau a chadeiriau yma a gallwch eistedd y tu mewn neu'r tu allan os ydy'r tywydd yn ffafriol.

Weithiau os ydy'r drysau ar agor fe fyddwch chi'n teimlo drafft oer trwy'r agoriad.

This is the Cantin. You can get food and drink from here. There are lots of tables and chairs and you can sit inside or outside if the weather is nice.

Sometimes if the doors are open you may get a cool draft through the space.

Mae yna dai bach cyhoeddus yn y Cantin ac fe gewch chi eu defnyddio'n rhad ac am ddim.

Mae yna dai bach ar wahân i ddynion a merched. Mae yna hefyd dŷ bach neillryw sy'n addas i ddefnyddwyr cadair olwyn a chyfleusterau newid babanod.

There are public toilets in the Cantin which you can use for free.

There are separate male and female toilets. There is also a unisex wheelchair accessible toilet and baby changing facilities.

Mae yna ganllaw i'ch helpu i godi oddi ar y tŷ bach.

In the accessible toilet there is an arm support rest to help you get up and down off the toilet.

Y llyfrgell

Os ewch chi'n ôl at y brif fynedfa a mynd yn eich blaen drwy'r set nesaf o ddrysau awtomatig fe gyrhaeddwch chi'r llyfrgell.

The library

Back at the main entrance if you go straight ahead through the next set of automatic sliding doors you'll enter the library area.

Os ewch chi yn eich blaen fe welwch chi'r brif ddesg ar eich dde lle bydd aelod o staff yn gweithio fel arfer.

If you keep heading forward on your right you'll find the front desk where a member of staff is usually stationed.

Gyferbyn â'r brif ddesg, mae yna ddrysau gwydr sy'n arwain at yr ystafell chwilio archifau lle mae pobl yn cyflawni gwaith ymchwil.

Opposite the main desk, there are glass doors which lead to the archives search room where people go do research.

Bydd y staff yn agor y drysau os ydych chi'n dymuno dod i mewn ac mae digonedd o le ar gyfer cadair olwyn.

Staff will open the doors if you want to come inside and there is plenty of space for a wheelchair.

Mae pobl yn dod yma i ddarllen llyfrau ac i ddefnyddio'r cyfrifiaduron.

Mae yna ddetholiad o seddi meddal, desgiau a silffoedd llyfrau ym mhob cwr o'r llyfrgell.

Mae'n bosibl y byddwch chi'n clywed pobl yn siarad, yn teipio ar y bysellfyrddau a sŵn clicio'r llygod cyfrifiadur.

People come here to read books and use the computers.

There are a mix of soft seats, desks and bookshelves all around.

You might hear people talking, typing on the keyboards and the sound of clicking computer mice.

Mae yna le chwarae i blant yma hefyd. Felly, mae'n bosib y clywch chi sŵn plant yn chwarae, yn canu ac yn mwynhau sesiynau stori.

Mae'n bosibl y clywch chi sŵn llyfrau'n cael eu gosod ar silffoedd a byrddau hefyd.

There is a children's play area too. So you might hear the sound of children playing, singing and storytime sessions.

There may also be the sound of books thumping on shelves and tables.

Mae yna ddrws i'r dde o'r man chwarae i blant sy'n arwain at yr ardal staff.

There is a door to the right of the children's play area which leads to the staff area.

Mewn argyfwng, gallai'r staff eich tywys i lawr y coridor sy'n eich arwain at ddau dŷ bach sy'n addas i ddefnyddwyr cadair olwyn.

In an emergency, staff can take you down the corridor which leads you to two wheelchair accessible toilets

Y Gofod a Chymunedol

Yn eich blaen ac i'r dde o'r brif ddesg, mae mynedfa'r Gofod Celfyddydau a Chymuned.

Mae'n ddrws sy'n agor gyda llaw ond fe gaiff ei hagor cyn cychwyn unrhyw ddigwyddiad.

Os ydych chi fymryn yn hwyr, gallwch ofyn i aelod o staff eich gadael i mewn os oes angen help arnoch chi gyda'r drws.

Arts and Community Space

Onwards to the right of the front desk is the entrance to the Arts and Community Space.

It is a manual door but before events start this will be left open.

If you're a little late, just ask a member of staff to let you in if you need help with the door.

Mae'r Gofod Celfyddydau a Chymuned yn ystafell fawr gyda lloriau pren a goleuadau cysurus.

Mae yna hefyd ffenestri enfawr sy'n caniatáu peth wmbreth o olau dydd (pan mae'n braf)

The Arts and Community space is a big room with wooden floors and warm lights.

There are also big windows which let in a lot of daylight. (When it's sunny)

Mae cynllun yr ystafell hon yn newid. Weithiau bydd cadeiriau gwyrdd wedi'u gosod mewn rhesi. Ar adegau eraill mae byrddau a chadeiriau wedi'u gosod ar gyfer gweithdai.

The set up of this room changes. Sometimes there are green chairs in rows.

Other times there are tables and chairs arranged for workshops.

Mae yna lawer o gelf ar y wal gan artistiaid a chymunedau.

Mae'r rhain yn newid yn rheolaidd.

There is a lot of art on the walls which have been made by artists and communities.

These change on a regular basis.

Mae yna sinc a chypyrddau yn y gornel ger y fynedfa gyda chwpanau a phlatiau ynddyn nhw.

There is a sink and cupboards in the corner near the entrance with cups and plates.

Mae yna sgrin y gallwch ei ddefnyddio ar gyfer cyflwyniadau.

Mae yna hefyd gamera gwe os hoffech chi ffrydio'ch digwyddiad yn fyw.

Gofynnwch i'r tîm os oes angen cymorth arnoch i drefnu hyn.

There is a screen which you can use for presentations.

It also has a web camera if you want to live stream your event.

Speak to the team if you need help setting this up.

Mae Canolfan Ddiwylliant Conwy yn le cyfeillgar lle mae croeso i bawb. Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch i allu cyrraedd yma, cysylltwch gyda nhw drwy godi'r ffôn neu eu e-bostio:

Rhif ffôn

Archifau Canolfan Ddiwylliant Conwy: 01492 577550

Llyfrgell Canolfan Ddiwylliant Conwy: 01492 576089

E-bost

archifau.archives@conwy.gov.uk

Conwy Culture Centre is a friendly place where all are welcome. If you need any more information to help you get here get in touch with them on phone or email:

Phone number

Conwy Culture Centre Archives: 01492 577550

Conwy Culture Centre Library: 01492 576089

Email

archifau.archives@conwy.gov.uk